



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

**Arholiad Aelodaeth Gyflawn 4 Hydref 2008
Papur 1: Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg**

Adroddiad y Prif Arholwr

Diolch i'r arholwyr am eu sylwadau manwl yn nodi'r llwyddiannau a'r anawsterau a gafodd yr ymgeiswyr. Diolch i staff y swyddfa am eu trefniadaeth effeithiol arferol ac am bob cefnogaeth.

Safon Aelodaeth Gyflawn

Mae aelodaeth gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Nifer yr ymgeiswyr: 22
Llwyddo: 15
Methu: 7

Gosodwyd dau ddarn o ryw 300 o eiriau yr un a oedd yn ceisio adlewyrchu cyweiriau lled wahanol. Roedd y naill ddarn yn gyflwyniad i arddangosfa ffotograffiaeth yn Nant Gwrtheyrn ac roedd y llall yn trafod cyllideb un o'r cynghorau sir.

Roedd y darn cyntaf yn sicr yn heriol a'r bwriad oedd gorfodi'r ymgeiswyr i feddwl o ddifri am sut y dylid cyfleu rhai o olyniadau lletchwith y gwreiddiol. Roedd yr ail ddarn yn adlewyrchu gorchwylion cyfieithydd yn ei waith bob dydd. Rhaid, ar y cyfan, ganmol safon y gwaith a gyflwynwyd. Roedd nifer helaeth o'r ymgeiswyr wedi cyflwyno gwaith a oedd yn dangos gallu datblygedig.

Gwaith llwyddiannus ac aflwyddiannus

Dyma nodi rai o'r brawddegau a barodd anhawster i rai ymgeiswyr:
These images are from a new art project I have started for the old village, now Welsh Language Centre, of Nant Gwrtheyrn, on the Llyn Peninsula.
Roedd yr ymgeiswyr hynny a ddewisodd y gystrawen 'hen bentref Nant Gwrtheyrn ...' wedi cael gwell hwyl o lawer ar bethau:
'hen bentref Nant Gwrtheyrn ar Ben Llŷn sydd bellach yn Ganolfan ...'

'hen bentref Nant Gwrtheyrn – sef y Ganolfan Gymraeg erbyn hyn – ym Mhen Llŷn'
yr hen bentref, sef y Ganolfan Iaith Genedlaethol erbyn hyn, yn Nant Gwrtheyrn, Pen Llŷn'

Almost wherever you wander you stumble across remnants of a once-thriving quarrying industry, old trucks, railways, engines and pulleys, scattered adjacent to metal-badged stark concrete buildings rattling in the strong winds.

Roedd ceisio cyfleu'r syniad o ddarnau metel ynghlwm wrth yr adeiladau concrit wedi achosi anhawster i amryw:

'adeiladau concrit moelion gyda darnau o fetel yn cydio ynddynt a rheiny'n sgyrtian yn y gwyntoedd cryfion'

'adeiladau concrit llwm, â'u harwyddion metel arnynt, yn clecio yn y gwyntoedd cryfion'

'adeiladau concrit diffaith, â bathodynau metel arnynt, sy'n clecian yn y gwyntoedd cryfion'.

The... village of Nant Gwrtheyrn nestles itself back into the trees behind

Mae'n amlwg nad oedd rhai ymgeiswyr yn gysurus yn defnyddio'r ferf 'swatio':

'Mae pentref ...Nant Gwrtheyrn yn swatio'i hun yn ôl i'r coed'

'Mae pentref ...Nant Gwrtheyrn yn swatio i'r coed y tu cefn iddo'

'Mae pentref ...Nant Gwrtheyrn yn swatio i mewn i'r coed'

Aflwyddiannus hefyd yw'r ddwy enghraifft nesaf:

'Mae pentref ...Nant Gwrtheyrn yn nythu ei hun yn ôl yn y coed y tu cefn iddo'

'... lleolir pentref glân a phlaen NG ... yn syth o flaen coed ...'

Enghraifft lwyddiannus: 'Mae pentref ...Nant Gwrtheyrn... yn swatio yn y coed y tu ôl iddo'.

I am very excited by this project and can't wait to get back down there!

Cafwyd amryw gynigion cloff:

'ni allaf aros i ddisgyn yno eto!'

'fedra i ddim aros i fynd yn ôl i lawr yna!'

Enghraifft lwyddiannus: 'rwy'n ysu am gael mynd ...!'

Councillors considered the views...raised

'Ystyriodd y cynghorwyr y barnau...'

Cyfathrebu'n llwyddiannus yw nod pob cyfieithydd. Ni ddylai, yn ei gyfieithiad, gael ei lyffetheirio gan union gyfluniad pob uned gyfathrebu yn y testun gwreiddiol, boed yr uned gyfathrebu honno'n baragraff, yn frawddeg, yn gymal, yn ymadrodd, yn air, yn forffem, yn atalnod, yn idiom, yn ddihareb, yn gyflythrennu ... Nid yw pob ymgeisydd wedi dysgu'r wers sylfaenol hon a'r canlyniad, yn anffodus, yw cyfathrebu cloff. Nid oes rhaid dewis enw lluosog bob tro yn y Gymraeg dim ond oherwydd bod y Saesneg wedi dewis enw lluosog.

Mae 'barnau' yn drwsogl yn y cyd-destun dan sylw; byddai 'barn' yn naturiol dderbyniol – ac mae grym yr enw unigol yn cwmpasu mwy nag un farn. Mewn brawddeg arall, roedd rhai wedi dewis 'synau'r gwynt' i ddynodi *the sounds of the wind*; byddai'r enw unigol yn ddewis mwy naturiol.

Roedd yr ail ddarn yn gyfor o berlau syfrdanol: *features very highly ... to ensure that the optimum service delivery is achieved, who identified, of key importance, were reported!* Ar y cyfan, cyflwynwyd gwaith digon llwyddiannus ac roedd llawer o'r darnau yn llifo'n rhwydd ac yn cyfleu'r ystyr yn gywir.

Rhai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus:

'Gwelir bod y gwasanaeth ... yn amlwg iawn ymysg blaenoriaethau'r trigolion'.
'fel y gellir targedu'r gwaith o gynnal a chadw priffyrdd, mesur pa mor effeithlon ac effeithiol ydyw, a'i wneud yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl'

'Nodwyd hefyd bod ... yn allweddol bwysig'.

Annerbyniol yw'r canlynol:

'Mae gwasanaeth Cynnal Priffyrdd yn cael ei synio amdano yn uchel'

'Roedd cael presenoldeb ... yn cael ei ganfod yn allweddol bwysig'

'er mwyn sicrhau y cyflawnir y dosbarthiad gwasanaeth gorau posibl'

'Cafodd eich barn ... eu hadrodd gerbron'.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd darllen y gwaith sawl tro cyn ei gyflwyno, nid ochr yn ochr â'r Saesneg yn unig, ond dylid hefyd ystyried y darn a gyflwynir i'w arholi yn ddarn o ysgrifennu Cymraeg gwreiddiol.

Penderfynwyd cael barn Canolwr ar waith un ymgeisydd. Barn y canolwr oedd bod gwaith yr ymgeisydd hwnnw yn dangos 'gallu da'.

Awgrymir bod un ymgeisydd yn cael ei ystyried ar gyfer Aelodaeth Sylfaenol.

Prif Arholwr (o'r Saesneg i'r Gymraeg)

Tachwedd 2008